Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Ymgynghoriad y Swyddfa Gartref - Dyletswydd adrodd gorfodol mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol

Yn cau 14 Awst 2023
Cyflwynwyd yr ymgynghoriad hwn yn electronig ar 10/08/2023.

Gweler copi o’r ymatebion a gyflwynwyd:

**C1: I’n helpu i ddadansoddi ein hymatebion, a fyddech cystal â dweud wrthym ym mha rinwedd rydych yn ymateb i’r ymgynghoriad hwn. Fel...**

- Arall

**Os ydych chi wedi dewis ‘Arall’ neu’n dymuno egluro eich ymateb, disgrifiwch y rôl sy’n eich disgrifio chi orau.**

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru (aelodau o’r Awdurdod Lleol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Tân a’r Trydydd Sector)

**C2. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, beth yw eich rôl o fewn y sefydliad?**

- Rheolwr

**C3. Rydym yn gwybod ein bod yn darparu gwasanaethau gwell pan rydym yn derbyn adborth gan ystod lawn o gefndiroedd a phrofiadau yn y gymdeithas yr ydym yn ei gwasanaethu. Gwerthfawrogwn petaech yn ateb y cwestiynau canlynol mewn perthynas ag amrywiaeth. Gallwch ddewis ‘mae'n well gen i beidio â dweud’ os byddai’n well gennych beidio ag ateb unrhyw gwestiwn.**

- Mae'n well gen i beidio â dweud

Eich tarddiad ethnig

- Mae'n well gen i beidio â dweud

**C4. Wrth rannu canfyddiadau’r ymgynghoriad hwn, a fyddech yn hapus i ni ddyfynnu’ch ymateb?**

- Byddwn - gan eu priodoli i’m sefydliad

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

**Adran 1: I bwy ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol?**

**C5. A yw'r ystod o'r 'rhai dan fandad i roi adroddiad' a amlinellir yn yr argymhelliad (pobl sy'n gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pobl mewn swyddi o ymddiriedaeth fel y diffinnir dan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 a swyddogion yr heddlu):**

- Priodol
- **Rhy gul**
- Rhy eang
- Ddim yn gwybod

Nodwch fanylion i egluro eich ymateb os gwelwch yn dda:

Teimlwyd ei fod yn rhy gul gan ei fod yn hepgor rhai pobl allweddol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc megis sgowtiaid, geidiaid, brownis, cadetiaid a chlybiau chwaraeon. Fe ddylai fod yn ofynnol i unrhyw un sy'n dod i gysylltiad rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc drwy weithgaredd a drefnwyd yn y gymuned roi gwybod am unrhyw achosion hysbys neu dybiedig o gam-drin plant yn rhywiol.

**C6: Ar ba lefel ddylai adrodd gorfodol fod yn berthnasol?**

- Ar lefel unigol yn unig
- Ar lefel sefydliadol yn unig (cyrff, sefydliadau neu grwpiau)
- **Ar lefel unigol a sefydliadol**
- Dyletswydd gyffredinol ar oedolion
- Ddim yn gwybod

**C7: [Os yw'r ymatebydd wedi dewis 'Ar lefel sefydliadol yn unig (cyrff, sefydliadau neu grwpiau)' neu 'Ar lefel unigol a sefydliadol' mewn ymateb i'r cwestiwn uchod], i ba sefydliadau neu grwpiau ddylai hyn fod yn berthnasol?**

Fe ddylai fod yn berthnasol i bob sefydliad neu grŵp sy'n gweithio gyda neu'n cysylltu'n rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc (gan gynnwys sefydliadau crefyddol). P'un a yw hynny drwy weithgarwch a reolir, trydydd partïon dibynadwy dan ddeddfwriaeth neu fel gwirfoddolwyr neu weithgareddau sydd y tu allan i'r ddau grŵp cyfyngedig hyn. Mae'n bosibl na fydd y gwahaniaethau wedi'u nodi neu'n hysbys gan y plant eu hunain. Ni ddylai'r plentyn fod dan anfantais am ddweud wrth oedolyn y maent yn ymddiried ynddynt mewn gweithgaredd y maent yn ei fynychu nad yw'n orfodol iddynt adrodd.

**C8: Pe bai dyletswydd adrodd gorfodol ar lefel sefydliadol, a ddylai fod yn ofynnol i'r rheiny a effeithir adrodd ar eu gweithgarwch yn flynyddol?**

- **Dylai**
- Na ddylai

- Ddim yn gwybod

**C9: [Os yw'r ymatebydd wedi nodi 'dylai' fel ateb i'r cwestiwn uchod] Sut ddylent adrodd am hyn?**

Dylid disgwyl iddynt ddarparu gwybodaeth ar yr hyfforddiant a gwblhawyd gyda staff a gwirfoddolwyr, y prosesau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth, a sut maent yn berthnasol ar gyfer y mathau o weithgareddau a/neu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Mae'n bosibl na fyddai'n briodol casglu gwybodaeth am nifer yr adroddiadau am gam-drin plant yn rhywiol gan nad yw rhai sefydliadau o bosibl yn derbyn unrhyw ddatgeliadau o fewn blwyddyn, a byddai unrhyw ddatgeliadau ffug neu a ddiystyrwyd gan nad oeddent yn cyrraedd y trothwy'n cael eu cyfri. Pe bai gofyniad adrodd gorfodol, fe allai hynny arwain at oblygiadau anfwriadol wrth ganolbwyntio ar y niferoedd yn hytrach na'r dioddefwyr eu hunain. Os pennir bod sefydliad yn gryf mewn perthynas â diogelu a cham-drin plant yn rhywiol yn arbennig yn seiliedig ar niferoedd, os oes cysylltiadau â chamfanteisio, gall y canfyddiad hwn arwain at gynnydd yn nifer y plant a gaiff eu camfanteisio. Mae risg posibl hefyd mewn perthynas â diogelu data os ydynt yn sefydliad bach, fe all ganiatáu i deuluoedd gael eu nodi cyn i ymchwiliadau ac achosion llys ddod i ben.

**Adran 2: Cwmpas y ddyletswydd**

**C10: A ddylai dyletswydd adrodd gorfodol fynd y tu hwnt i'r cwmpas a argymhellir gan yr Ymchwiliad a chynnwys mathau eraill/bob math o gam-drin ac esgeulustod?**

- **Dylai**
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod

**C11: [os yw'r ymatebydd wedi dewis 'Dylai' fel ateb] Pa fath o gam-drin a/neu esgeulustod ydych chi'n credu ddylai gael eu cynnwys?**

Rydym ni'n credu y byddai'n briodol cynnwys bob math o gam-drin a chamfanteisio ar blant. Ein rheswm dros hyn yw y gall mathau eraill o gamfanteisio a cham-drin arwain at gam-drin plant yn rhywiol, felly gallai rhoi gwybod am yr achosion hyn yn gynt atal y sefyllfa rhag gwaethygu i gam-drin rhywiol.

**C12: Pa effaith (cadarnhaol neu negyddol) ydych chi'n credu y gallai dyletswydd adrodd gorfodol ei chael ar:**

- Blant sy'n dewis gwneud datgeliad, naill ai'n rhannol neu'n llawn

  Dylent gael sicrwydd y bydd camau'n cael eu cymryd i'w atal rhag digwydd eto ac na fydd eu datgeliad yn cael ei ddiystyru neu ei anwybyddu ac os ddim, gallant roi gwybod am yr unigolyn hwnnw am beidio â datgelu.

- Unigolion o fewn cwmpas y ddyletswydd i roi gwybod am achosion hysbys / tybiedig

  Ni ddylai hyn gael llawer o effaith gan fod dyletswydd i adrodd eisoes yn bodoli, ond fe allai eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r gofyniad ac annog cydymffurfiaeth.  Pan gafodd ymgynghoriad tebyg ei gwblhau yng Nghymru, roedd rhai pryderon y byddai'n cael effaith ar recriwtio a chadw staff yn y sectorau a'r sefydliadau o fewn y cwmpas.  Rydym o'r farn y byddai'r awgrym i ymestyn i grŵp ehangach yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

- Sefydliadau o fewn cwmpas y ddyletswydd i roi gwybod am achosion hysbys / tybiedig

  Ni ddylai hyn gael llawer o effaith gan fod dyletswydd i adrodd eisoes yn bodoli, ond fe allai eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r gofyniad ac annog cydymffurfiaeth.

- Unigolion y tu allan i gwmpas y ddyletswydd i roi gwybod am achosion hysbys / tybiedig

  Mae'n bosibl na fyddant yn credu ei fod yn gyfrifoldeb arnyn nhw.  Fe allai hyn arwain at beidio â rhoi gwybod am achos, a dyna pam rydym ni'n credu y dylai fod yn ddyletswydd ar bob unigolyn sy'n gweithio, gwirfoddoli neu'n ymgysylltu â'r gymuned yn rheolaidd neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phlant a phobl ifanc.

- Sefydliadau y tu allan i gwmpas y ddyletswydd i roi gwybod am achosion hysbys / tybiedig

  Mae'n bosibl na fyddant yn credu ei fod yn gyfrifoldeb arnyn nhw.  Fe allai hyn arwain at beidio â rhoi gwybod am achos, a dyna pam rydym ni'n credu y dylai fod yn ddyletswydd ar bob sefydliad sy'n gweithio neu'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn rheolaidd.

- Asiantaethau yn y system ddiogelu ehangach y mae gofyn iddynt ymateb i achosion o gam-drin

  Mae'n bosibl y bydd cynnydd yn y capasiti adnoddau gofynnol, ond o ystyried bod gofyniad i adrodd yn bodoli eisoes, ni ddylai nifer yr adroddiadau am gam-drin gynyddu rhyw lawer.  Pe bai rhagor o adroddiadau o fewn y capasiti presennol, gellir dadlau y byddai'r adnoddau presennol yn cael eu hymestyn ac na fydd achosion llai difrifol yn derbyn y sylw sydd eu hangen arnynt, fodd bynnag, gan fod cam-drin plant yn rhywiol bob amser yn ddifrifol yn ein barn ni, gallai'r risg sydd ynghlwm ag achos nad yw'n ymddangos yn ddifrifol iawn arwain at fethu arwyddion o rywbeth gwaeth neu alluogi i'r sefyllfa waethygu i'r plentyn hwnnw neu blant ychwanegol.

- Aelodau'r cyhoedd

Mae'r grŵp hwn yn eang iawn ac felly mae'n anodd nodi'r effeithiau oni bai am ddangos na fydd camdriniaeth yn cael ei goddef ac y bydd camau'n cael eu cymryd mewn achosion hysbys neu dybiedig o gam-drin plant yn rhywiol.

**C13: Ar ba lefel o wybodaeth ddylai dyletswydd adrodd gorfodol fod yn berthnasol?**

- Achosion hysbys o gam-drin yn unig
- **Achosion hysbys a thybiedig o gam-drin (yn seiliedig ar ddangosyddion cydnabyddedig o gam-drin)**

Mae'r ddyletswydd bresennol yn ymwneud ag achosion hysbys a thybiedig, mae gweithdrefnau arbennig a gaiff eu dilyn gan unigolion hyfforddedig i gasglu tystiolaeth ar gyfer y system gyfiawnder droseddol. Os bydd rhywun arall yn cynnal ymchwiliad, mae perygl iddynt wneud camgymeriadau a all arwain at ddiystyru achos troseddol. Fe allai hynny olygu diffyg cyfiawnder i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a chaniatáu i'r cyflawnwr barhau heb oblygiadau.

**C14: Beth ddylid ei ystyried fel 'datgeliad' o gam-drin?**

Unrhyw beth y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn ei ddweud neu ei gyfathrebu drwy ddull arall sy'n dangos neu'n awgrymu eu bod wedi cael eu cam-drin. Mae'n bwysig nad yw'n cael ei gyfyngu i'r hyn a ddwedir gan blant gan nad oes gan bob plentyn y sgiliau ieithyddol neu'r eirfa i fynegi eu profiadau.

Dylid cymryd pob datgeliad o ddifri a dylai deddfwriaeth ddod ag achosion o wawdio, cywilyddio neu beidio â chredu dioddefwyr i ben. Dylid cymryd bob datgeliad o ddifri a'u hymchwilio drwy'r dulliau a'r sianeli priodol, a dylid sicrhau goblygiadau i unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n methu â gwneud hynny.

**C15. Mae'r Ymchwiliad yn gofyn bod 'dangosyddion cydnabyddedig o gam-drin plant yn rhywiol', nad ydynt wedi'u nodi'n glir, yn cael eu hamlinellu mewn canllawiau a'u diweddaru'n rheolaidd - sut fyddech chi'n sgorio eich lefel hyder bersonol o ran nodi dangosyddion o gam-drin plant yn rhywiol?**

Nodwch sgôr o 1 i 10 *[1: dim hyder, 10: hyderus iawn]* **8**

Mae'n anodd pennu sgôr benodol mewn perthynas â hyn gan fod ein hymateb ar ran Rhwydwaith sy'n cynnwys ystod eang o aelodau o'r cyhoedd a'r trydydd sector. Er y gobeithiwn fod pawb yn hyderus iawn yn y maes hwn, ni allwn gynnig sgôr bendant. Fodd bynnag, yn sgil natur gwaith diogelu cymunedau, credwn fod y sgôr uchod yn briodol. Ni fyddai'n briodol i'r unigolyn sy'n drafftio'r ymateb hwn ddarparu eu hymateb personol eu hunain mewn perthynas â'r cwestiwn hwn gan fod yr ymateb yn cynrychioli aelodau ehangach.

**C16. Sut fyddech chi'n sgorio lefel hyder eich sector o ran nodi dangosyddion o gam-drin plant yn rhywiol?**

Nodwch sgôr o 1 i 10 *[1: dim hyder, 10: hyderus iawn]* **8**

Ni fyddem yn dweud ein bod yn llwyr hyderus yn y maes hwn gan fod lle i wella bob amser. Nid ydym yn dymuno gweld hunanfoddhad o fewn y sector a allai arwain at gamgymeriadau a methu cyfleoedd i nodi dangosyddion. Wedi dweud hynny, yn sgil natur gwaith diogelu cymunedau a'r cysylltiad gyda chamfanteisio ar blant, mae ein sector a'n hymarferwyr yn fwy ymwybodol o'r dangosyddion o'i gymharu â nifer o adrannau, sefydliadau a sectorau eraill.

**Adran 3: Cosbau ar gyfer methiant i adrodd**

**C17. Beth yw eich barn am gynnig yr Ymchwiliad y dylai achos o fynd yn groes i'r ddyletswydd adrodd gorfodol fod yn drosedd?**

- Cytuno'n gryf
- **Cytuno**
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Gan fod dyletswydd yn bodoli eisoes y dylid cydymffurfio â hi, y farn gyffredinol yn y gweithdy gydag arweinwyr diogelwch cymunedol oedd mai dim ond ar gyfer y rheiny nad ydynt eisoes yn cydymffurfio â'r ddyletswydd yr oedd y ddeddfwriaeth hon yn ofynnol. Ymddengys bod hyn yn briodol felly gan y gallai diffyg adroddiadau alluogi'r plentyn neu'r unigolyn ifanc i gael eu cam-drin ymhellach, neu i blant a phobl ifanc eraill gael eu cam-drin gan yr un unigolyn neu grŵp o gyflawnwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ei ymateb ei hun i adroddiad terfynol IICSA (ar gael ar-lein) a oedd yn cytuno mewn egwyddor gydag argymhelliad 13. Fel Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, rydym yn ymwybodol fod gennym sefydliadau a chyrff sy'n aelodau o'r sectorau datganoledig ac wedi'u neilltuo sy'n gweithredu ochr yn ochr â'r tirlun diogelwch cymunedol. Hoffem felly amlygu'r pwysigrwydd o sicrhau ymgysylltiad da rhwng y ddwy Lywodraeth i leihau unrhyw amwysedd posibl mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

**C18: A ydych chi'n credu y dylai unrhyw gosbau eraill fod yn berthnasol i achosion o fynd yn groes i'r ddyletswydd adrodd gorfodol (er enghraifft, gwaharddiadau proffesiynol, neu gamau rheoleiddiol mewn perthynas â sefydliadau)?**

- **Dylai**
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod

Dylai rheoleiddwyr gymryd camau a lle bo unrhyw gymwysterau proffesiynol neu gorff proffesiynol, dylid eu gwaredu o'r gofrestr a'u gwahardd rhag cael eu hychwanegu eto yn y dyfodol. Os ydynt ynghlwm â gweithgaredd rheoledig, dylid eu hychwanegu at y rhestr plant gan fod eu camau o bosibl wedi caniatáu i ragor o blant ddioddef camdriniaeth neu wedi ymestyn y gamdriniaeth i'r plentyn neu'r plant dan sylw lle bo mwy nag un plentyn yn gysylltiedig (er enghraifft brodyr/chwiorydd neu ffrindiau).

**C19: Beth yw eich barn chi ar yr eithriad i'r ddyletswydd a ddisgrifir yn yr argymhelliad (i osgoi perthnasoedd cydsyniol rhwng cyfoedion)?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- **Anghytuno'n gryf**
- Ddim yn gwybod

Teimlwyd y byddai hyn yn creu sefyllfa beryglus a allai gael effaith ar ddylanwad y neges. Mae'n rhaid sicrhau bod neges glir mai'r oedran ar gyfer cydsynio yw 16 a bod unrhyw beth arall yn annerbyniol. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod llinellau sirol yn camfanteisio'n rhywiol ar blant a gallai'r eithriad hwn ganiatáu i gyflawnwyr o fewn y grwpiau oedran hynny hawlio eithriad gan adael y dioddefwr ac eraill mewn perygl o achosion pellach o gam-drin rhywiol.

Fe allai adael y drws ar agor i fathau penodol o bornograffi cam-drin plant. Yn benodol, os bydd dau unigolyn yn cymryd rhan mewn gweithred gorfforol ac yn dod o dan y grŵp oedran eithriedig hwn, a'r weithred honno'n cael ei rhannu at ddibenion ariannol neu at unrhyw ddiben arall ar gyfer pedoffiliaid, fe allai'r ymddangos i'r unigolyn sydd â dyletswydd i adrodd bod yr achos yn gymwys i'r eithriad os nad ydynt yn ymwybodol fod y weithred yn cael ei rhannu.

**C20: A yw'r eithriad hwn yn debygol o achosi unrhyw anawsterau penodol?**

- **Ydi**
- Nac ydi
- Ddim yn gwybod

Bydd yn cael effaith negyddol ar ddylanwad y neges ac yn awgrymu ei fod yn briodol i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol cyn yr oedran cydsynio mewn rhai amgylchiadau. Fe allai arwain at gynnydd mewn achosion o gamfanteisio a chamdriniaeth yn hytrach na gostyngiad, yn enwedig gan fod y rheiny sy'n camfanteisio'n aml yn ceisio gwneud i'r broses o gaethiwo a gorfodaeth ymddangos fel perthynas, drwy ddulliau megis dangos gormodedd o sylw cariadus (*love-*

*bombing*). Mae gwahaniaeth enfawr rhwng plentyn 16 oed a phlentyn 13 oed o ran eu haeddfedrwydd rhywiol, emosiynol a chorfforol (ysgerbydol a chyhyrol).

**C21: A ydych chi'n credu y dylid rhoi unrhyw eithriadau eraill ar waith mewn perthynas â'r ddyletswydd a fyddai'n golygu peidio â defnyddio'r cosbau?**

- Ydw
- **Nac ydw**
- Ddim yn gwybod

Nid ydym yn credu y dylid rhoi unrhyw eithriadau ar waith gan y gallant gynnig cyfleoedd ar gyfer negeseuon cymysg a chaniatáu i achosion o gamfanteisio a chamdriniaeth barhau drwy gynnig opsiwn dianc i gyflawnwyr.

**Adran 4: Sut i sicrhau gweithrediad llwyddiannus**

**C22: A ydych chi'n rhagweld unrhyw bosibilrwydd o orgyffwrdd neu densiwn gyda'ch dyletswyddau neu'ch gofynion proffesiynol eraill pe bai dyletswydd adrodd gorfodol yn cael ei chyflwyno?**

- Ydw
- **Nac ydw**
- Ddim yn gwybod

Mae'r ddyletswydd eisoes yn bodoli ac fe ddylai felly fod yn ofyniad i nifer o'n aelodau eisoes.  Mae'r ddyletswydd adrodd gorfodol yn ychwanegu goblygiad hysbys uniongyrchol i beidio â chydymffurfio.

**C23: A ydych chi'n credu bod cyflwyno dyletswydd adrodd gorfodol yn codi unrhyw ystyriaethau mewn perthynas â chydraddoldeb?  Er enghraifft, effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau gyda nodweddion a ddiogelir.**

- **Ydw**
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

O ran bob plentyn ac unigolyn ifanc, fe ddylai fod yn gam cadarnhaol tuag at atal unrhyw gamdriniaeth rhag parhau neu atal unigolion eraill rhag dioddef camdriniaeth. Er y gall unrhyw blentyn ddioddef camdriniaeth rywiol, mae'n drais ar sail rhywedd gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi cymhareb o 80% i 20% merched / bechgyn yn 2018/19 mewn perthynas â'r achosion a gofnodwyd, felly mae unrhyw effaith gadarnhaol neu ostyngiad yn debygol o fod yn fwy perthnasol i ferched.

**C24. Pa fath, os o gwbl, o amddiffyniadau ydych chi'n credu ddylai fod ar waith i sicrhau nad yw unigolion sy'n gwneud adroddiadau'n ddidwyll yn dioddef effaith niweidiol o ganlyniad?**

Dylid sicrhau bod system ddienw o ryw fath ar waith ac mae rhai offerynnau a phwerau eisoes ar gael i atal aflonyddwch. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod modd o fonitro os bydd rhywun yn defnyddio'r system drwy wneud adroddiadau ffug i aflonyddu neu ddychryn eraill. Mae hyn yn bwysig gan y gallai fod yn arwydd eu bod ynghlwm â rhyw fath o gamfanteisio eu hunain ac yn ceisio creu bwlch rhwng eu targed a'r rhai sy'n eu hamddiffyn.

**C25: A ddylid gweithredu unrhyw ddiwygiadau ychwanegol i sicrhau bod dyletswydd adrodd gorfodol yn llwyddo i ddiogelu ac amddiffyn plant?**

- **Dylid**
- Na ddylid
- Ddim yn gwybod

Fel y soniwyd eisoes yn yr ymateb hwn, rydym ni'n credu y dylid ei ymestyn i gynnwys pob math o gamfanteisio a cham-drin plant yn hytrach na cham-drin plant yn rhywiol yn unig.

Os yw'r ddyletswydd i adrodd eisoes yn berthnasol, ni fydd adrodd gorfodol yn gwneud unrhyw wahaniaeth mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant. Rydym felly'n credu ei fod yn bwysig ystyried sut gellid gwneud gwelliannau eraill, megis dulliau gwell ar gyfer rhannu gwybodaeth, gwaith amlasiantaeth, asesiadau, penderfyniadau; a gweithio gyda dinasyddion ar bob cam o ymgysylltu â system ddiogelu.

**C26: I bwy y dylid gwneud adroddiadau?**

- Awdurdod Lleol
- Yr Heddlu
- Arall (nodwch)

Dylid parhau i wneud adroddiadau yn unol â'r trefniadau presennol sy'n galluogi dull partneriaeth a gwasanaethau estynedig.

**C27: Argymhellodd yr Ymchwiliad y "dylid gwneud adroddiadau mewn perthynas ag amheuon neu wybodaeth am gamdriniaeth cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol". A ddylid diffinio'r amserlenni o'r pwynt y daw'r unigolyn i wybod/amau unrhyw achos yn fwy penodol?**

- Dylid
- Na ddylid
- Efallai
- **Ddim yn gwybod**

Mae gofyniad eisoes yn bodoli i roi gwybod o fewn 24 awr felly nid yw'n glir pam bod dryswch mewn perthynas â'r amserlenni.

**C28: A fyddai'n rhaid i'ch sefydliad wneud unrhyw newidiadau er mwyn sicrhau fod y ddyletswydd adrodd gorfodol yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus?**

- Byddai
- **Na fyddai**
- Ddim yn gwybod

Mae'r rhai yr ydym wedi ymgysylltu â hwy fel rhan o'r Rhwydwaith eisoes yn destun y ddyletswydd i adrodd, felly yr unig newid y byddem yn ei wneud yw diweddaru hyfforddiant a gwybodaeth i bwysleisio y gallai diffyg cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd arwain at oblygiadau drwy gyfiawnder troseddol.

**C29: A fyddai'n rhaid i chi fel unigolyn wneud unrhyw newidiadau er mwyn sicrhau fod y ddyletswydd adrodd gorfodol yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus?**

- Byddai
- Na fyddai
- **Ddim yn gwybod**

Darperir yr ymateb hwn ar ran Rhwydwaith ac felly ni fyddai'n briodol cynnig ymateb o safbwynt unigolyn ar ran ein haelodau. Fodd bynnag, fel Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, byddai'n rhaid i ni ddiweddaru ein gwefan i sicrhau eglurder a sicrhau bod unrhyw bolisïau o fewn ein sefydliad lletyol yn cael eu cynnwys yn y diwygiad.

**C30: A oes unrhyw bryderon, gan gynnwys unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen, yr hoffech chi dynnu sylw atynt yn eich sector?**

- **Oes**
- Nag oes
- Ddim yn gwybod

Adnoddau ar gyfer ymdrin â chynnydd posibl mewn adroddiadau, gan gynnwys cynnydd mewn gwasanaethau eiriolaeth i gefnogi dioddefwyr. Hyfforddiant ychwanegol a diweddaru polisïau a gweithdrefnau i gymryd newidiadau mewn deddfwriaeth i ystyriaeth.

**C31: A oes unrhyw ystyriaethau ychwanegol i sicrhau bod gweithwyr a gwirfoddolwyr yn eich sector yn gallu bodloni unrhyw gyfrifoldebau adrodd gorfodol newydd?**

- Oes
- **Nag oes**
- Ddim yn gwybod

Fel y nodwyd eisoes, yn sgil natur diogelu cymunedau, mae dyletswydd i adrodd eisoes yn berthnasol.

**C32: Oni bai am gyflwyno dyletswydd adrodd gorfodol, a oes unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud i wella datgeliadau / adroddiadau / ymchwiliadau ac erlyniadau mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol?**

Gellid gwneud gwelliannau i'r system llysoedd er mwyn lleihau'r effaith a'r posibilrwydd o blentyn yn ail-brofi trawma gan osod ffiniau clir o ymddygiad derbyniol i'r rheiny a gaiff eu cyhuddo neu gynrychiolwyr y rheiny a gaiff eu cyhuddo o gam-drin plant yn rhywiol. Ni ddylid rhoi cyfle ar gyfer beio neu gywilyddio'r dioddefwr yn arbennig pan fo'r dioddefwr yn iau na'r oedran cydsynio.

Rydym hefyd yn credu ei fod yn bwysig ystyried sut gellid gwneud gwelliannau eraill, megis dulliau gwell ar gyfer rhannu gwybodaeth, gwaith amlasiantaeth, asesiadau, penderfyniadau; a gweithio gyda dinasyddion ar bob cam o ymgysylltu â system ddiogelu.